# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 9 a 16 Medi 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Trigeinmlwyddiant Glaniadau D-day

**David Lloyd:** Yn dilyn eich ateb i WAQ36913, a wnaiff y Prif Weinidog roi manylion pryd y gwnaethpwyd y penderfyniad i ddewis pwy a ddylai fynychu trigeinmlwyddiant glaniadau D-day? (WAQ37352)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 11 Awst 2004.***

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Cadarnhawyd i'm swyddfa ar 12 Mai y byddai Edwina Hart ar gael i fynychu'r achlysur .

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Cyngor Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru

**Jenny Randerson:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau â Chyngor Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru ynghylch cynigion i wneud cynnig am gemau'r gymanwlad? (WAQ37451)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Cyngor Gemau'r Gymanwlad yng Nghymru sy'n gwneud cynnig ffurfiol i Ffederasiwn Gemau'r Gymanwlad. Yr wyf yn ymwybodol bod y cyngor wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y posibilrwydd o gynnig gan Gymru i gynnal gemau'r gymanwlad yn 2014. Nid wyf wedi cael cyfle eto i gwrdd â'r cyngor i drafod y mater hwn.

### Culturenet Cymru

**Peter Black:** Pa gymorth ariannol sy'n cael ei ddarparu ar gyfer Culturenet Cymru am y flwyddyn ariannol gyfredol a'r tair blwyddyn ariannol flaenorol? (WAQ37455)

**Alun Pugh:** Swm o £500,000 eleni, £600,000 yn 2003-04 a £123,000 yn 2002-03 tuag at gostau sefydlu Culturenet Cymru.

### Gwefan Arwyr Cymru a'r Bleidlais ar y Rhyngrwyd

**Peter Black:** Pa gymorth ariannol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i wefan arwyr Cymru a'r bleidlais ar y rhyngrwyd? (WAQ37456)

**Alun Pugh:** Fel a wnaed yn glir gennyf yn fy ateb i Glyn Davies ar 19 Ionawr ac i Nick Bourne cyn hynny, darparwyd £154,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i helpu gyda chostau contractyddol cynnal pleidlais arwyr Cymru.

### Gwefan Arwyr Cymru a'r Bleidlais ar y Rhyngrwyd (Gohebiaeth, E-byst a Sgyrsiau Ffôn)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi pob gohebiaeth, e-bost a chofnod o sgyrsiau ffôn yn ymwneud â gwefan arwyr Cymru a'r bleidlais ar y rhyngrwyd? (WAQ37457)

**Alun Pugh:** Byddwn yn barod iawn i gyhoeddi gwybodaeth nad yw'n ddarostyngedig i'r eithriadau yng nghod ymarfer y Cynulliad ar ganiatáu i'r cyhoedd weld gwybodaeth. Er y byddwn yn cyhoeddi popeth a fedrwn, mae'r cais, fel y mae, yn cwmpasu llawer iawn o wybodaeth. Byddai o gymorth pe gallech fanylu ar unrhyw faes neilltuol y mae gennych ddiddordeb ynddo. Nid er mwyn cyfyngu ar y wybodaeth

a ddarperir y gofynnir hynny, ond i gynorthwyo'r swyddogion i'w darparu'n fwy cyflym.

### Gwefan Arwyr Cymru a'r Bleidlais ar y Rhyngrwyd (Gwerth am Arian)

**Peter Black:** Pa drefniadau sydd yn eu lle i sicrhau bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael gwerth am arian wrth ariannu Culturenet Cymru a gwefan arwyr Cymru a'r bleidlais ar y rhyngrwyd? (WAQ37458)

**Alun Pugh:** Pan sefydlwyd Culturenet Cymru, cymeradwyodd y Gweinidog Diwylliant ar y pryd ei gyfansoddiad ynghyd â strategaeth dair blynedd a chynllun gweithredu. Cytunwyd hefyd mai'r dull mwyaf effeithiol o ddarparu Culturenet Cymru fyddai drwy gonsortiwm o CCNC sydd wedi'u cynrychioli ar Cymru'n Creu. Mater i'r CCNC hynny yw penderfynu sut mae Culturenet Cymru yn cyflawni'r amcanion a nodwyd yn ei strategaeth dair blynedd a'i gynllun gweithredu.

Oherwydd buddsoddiad Llywodraeth Cynulliad Cymru, cynrychiolir y swyddogion ar fwrdd Culturenet Cymru fel arsyllwyr. Yn ogystal, mae swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro a phrosesu gweithgareddau ariannol Culturenet Cymru yn fisol.

### Gwefan Arwyr Cymru a'r Bleidlais ar y Rhyngrwyd (Sefydlu a Monitro)

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion cysylltiad ei swyddogion, os o gwbl, â sefydlu a monitro gwefan arwyr Cymru a'r bleidlais ar y rhyngrwyd? (WAQ37459)

**Alun Pugh:** Mae gan y swyddogion rôl arsyllu ar fwrdd Culturnet Cymru, a fu'n goruchwylio'r gwaith o sefydlu prosiect arwyr Cymru. Materion gweithredol i Culturenet Cymru yw monitro'r wefan o ddydd i ddydd a'r bleidlais ar y rhyngrwyd.

### Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru

**Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru? (WAQ37460)

**Alun Pugh:** Ar 22 Mawrth 2004, cyhoeddais becyn cyllido tair rhan ynghyd â Chomisiwn y Mileniwm a Chyngor Sir Caerfyrddin i helpu gyda strategaeth ailsefydlu'r ardd.

Mae'r strategaeth wedi'i seilio ar welliannau sylfaenol i'r ardd ac mae'n cael ei gweithredu ar hyn o bryd. Mae'r ardd yn gwella ei threfniadau rheoli a llywodraethu—gan roi strategaeth ar waith i wella'r gweithgarwch marchnata ac ychwanegu gwerth at yr atyniad i ymwelwyr. Mae'r ardd yn canolbwyntio ar gynyddu nifer yr ymwelwyr ac mae'n gweithredu mewn ffordd fwy effeithlon drwy gynnal sylfaen gostau isel tra'n cynyddu'r incwm ymwelwyr.

Yr ydym yn parhau i weithio'n agos gyda'r ardd a'n partneriaid yn y sector cyhoeddus drwy gydol y

broses adfer hon.

### Gwaith Mwyngloddio Llywernog, Ceredigion

**Nick Bourne:** A yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu unrhyw gymorth i waith mwyngloddio Llywernog yng Ngheredigion? (WAQ37464)

**Alun Pugh:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth i waith mwyngloddio Llywernog yng Ngheredigion drwy CyMAL, Cadw, Awdurdod Datblygu Cymru na Bwrdd Croeso Cymru.

### Cyfleusterau Chwaraeon yng Ngogledd Cymru

**Carl Sargeant:** Er 1999, faint o gyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'i ddarparu ar gyfer adeiladu, datblygu a gwella cyfleusterau chwaraeon yng ngogledd Cymru? (WAQ37483)

**Alun Pugh:** Mae Cyngor Chwaraeon Cymru, fel corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, yn chwarae rhan allweddol yn datblygu a gwella cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru. Er 1999, mae dros £10 miliwn wedi cael ei fuddsoddi mewn mwy nag 80 o brosiectau cyfalaf sydd wedi canolbwyntio ar wella cyfleusterau chwaraeon yng ngogledd Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Lledu Eastbrook Road i Benarth

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gefndir, diben ac amcanion cynnig Awdurdod Datblygu Cymru i ledu Eastbrook Road i Benarth? (WAQ37377)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r holl ddata traffig yn gysylltiedig â chynnig y WDA i ledu Eastbrook Road i Benarth? (WAQ37378)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 18 Awst 2004.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Nid oes gan y WDA gynnig i ledu Eastbrook Road ac nid yw wedi bod yn berchen ar unrhyw dir nac eiddo yn yr ardal honno er 2001.

### Canolfan Llygad Busnes

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog restru'r gost o weinyddu pob canolfan llygad busnes unigol? (WAQ37379)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 18 Awst 2004.***

**Andrew Davies:** Bydd y WDA yn dechrau cyn hir ar y broses o wahodd tendrau cystadleuol i ymgeisio am gontractau i ddarparu gwasanaethau llygad busnes yn lleol, a ddaw i rym o 1 Ebrill 2005. Gallai rhyddhau manylion am werth y contractau presennol effeithio ar ganlyniad y broses dendro. Cyfanswm cost y contractau cyfredol yw £2.83 miliwn. Wrth baratoi ar gyfer y cylch newydd o gontractau, bydd yr asiantaeth yn adolygu perfformiad y contractwyr cyfredol i sicrhau bod y gwasanaethau yn parhau i fod yn effeithiol a hygyrch.

## Astudiaeth Ddichonoldeb Aml-fodd

**Mark Isherwood:** Yn dilyn yr ateb i WAQ36648, pryd y dyfarnwyd y grant trafnidiaeth i gynnal yr astudiaeth ddichonoldeb aml-fodd? (WAQ37386)

**Mark Isherwood:** Yn dilyn yr ateb i WAQ36648, pryd y bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru/ Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disgwyl cael gwybod, neu y mae'n ofynnol iddynt gael gwybod, am ganlyniad yr astudiaeth aml-fodd? (WAQ37387)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 18 Awst 2004.***

**Andrew Davies:** Darparwyd swm o £150,000 i Gyngor Sir y Fflint ar 9 Chwefror 2000 fel rhan o'i setliad grant trafnidiaeth 2000-01 i gyllido'r astudiaeth ddichonoldeb i drafnidiaeth integredig ar hyd coridor yr A541/A550. Deallaf i'r astudiaeth gael ei chwblhau o fewn cyfnod rhesymol o amser a mater i'r cyngor yn awr yw ystyried sut mae am symud ymlaen. Fodd bynnag, nid oes cynigion am gynlluniau newydd (ar wahân i'r Cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol) wedi cael eu gwahodd ar gyfer 2005-06.

## Gwasanaeth Bws Trawscambria 701

**Laura Anne Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gydag Arriva plc ynghylch terfynu'r gwasanaeth bws Trawscambria 701 rhwng y Gogledd â'r De? (WAQ37388)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 25 Awst 2004.***

**Andrew Davies:** Mae'r gwasanaeth Trawscambria yn rhedeg rhwng Bangor a Chaerdydd. Mae Arriva yn bwriadu disodli siwrneiau bws gyda siwrneiau trên rhwng Caerfyrddin a Chaerdydd, a mater iddo ef farnu'n fasnachol yn ei gylch yw hynny. Mae fy swyddogion mewn cysylltiad rheolaidd ag Arriva, awdurdodau lleol a'r Ffederasiwn Cenedlaethol Defnyddwyr Bysiau, sy'n trafod y cynigion yn fanwl.

## Cwtogi Rhwydwaith Rheilffordd Traws Gwlad

**Laura Anne Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch cwtogi'r rhwydwaith rheilffordd traws gwlad ac effaith hyn ar ddefnyddwyr y rheilffordd? (WAQ37431)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 25 Awst 2004.***

**Andrew Davies:** Yr ateb i'ch cwestiwn yw dim. Cyhoeddodd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ar 6 Awst fod cytundeb un tendr y bu'n ei drafod gyda Virgin Rail Groups i redeg y fasnachfraint tan 2012 yn rhy uchel o gryn lawer i basio'r prawf gwerth am arian y mae'n ei gynnal ar ran y trethdalwyr. Mater i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol yw penderfynu ar y camau nesaf.

## Arferion sy'n Eco-Gyfeillgar

**Val Lloyd:** Sut y mae busnesau yn cael eu hannog i fod yn 'wyrdd' ac i ddefnyddio arferion sy'n eco-gyfeillgar? (WAQ37446)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio mewn partneriaeth â nifer o gyrff allweddol a darparwyr gwasanaethau i annog busnesau a rhoi cymorth ymarferol iddynt. Mae'r cynllun gweithredu busnes a'r amgylchedd a lansiwyd ym mis Chwefror 2003 yn dangos fy ymrwymiad i'r mater hwn. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar reoli adnoddau busnes a materion effeithlonrwydd ac mae'n fodd i gyd-drefnu a phwysleisio'r gwasanaeth cymorth sylweddol sydd ar gael i gynorthwyo'r sector busnes.

Mae gwobr flynyddol amgylchedd Cymru yn dangos y cynnydd sy'n cael ei wneud yn dda, a, bob blwyddyn, mae'r sectorau'n dod yn fwy cystadleuol ac amrywiol fel y mae'r angen i gynyddu nifer y categorïau o wobrau yn ei ddangos. O safbwynt gollyngiadau carbon, mae'r Ymddiriedolaeth Carbon, a noddir gan y Cynulliad Cenedlaethol, yn darparu cymorth uniongyrchol i fusnesau Cymru ac mae rhai astudiaethau achos da ar gael sy'n help i ddangos y manteision i fusnesau a'r effaith y mae eu rhaglenni yn eu cael. Mae'r adroddiad blynyddol busnes a'r amgylchedd, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin eleni, yn ymhelaethu ar y pwyntiau hyn ac yn dangos y gweithgareddau amrywiol a fu ar y gweill ers lansio'r cynllun, y mae copi ohono ar gael drwy'r wefan hon: http://www.businessenvironment.wales.gov.uk/documents/beap-ar0304-e.pdf

Drwy benodi panel arbenigol annibynnol ar reoli adnoddau sydd â'r dasg o ddynodi hyd a lled anghenion busnes ar ôl 2007 yr wyf wedi dangos y pwysigrwydd yr wyf yn ei roi i'r mater hwn a'i rôl arwyddocaol wrth ddatblygu'r economi.

## Y Sefydliad Cenedlaethol Er Ymchwilio i Gynefinoedd Dyfrol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog hysbysu pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i annog y Sefydliad Cenedlaethol Er Ymchwilio i Gynefinoedd Dyfrol i adeiladu'r acwariwm mwyaf yn y byd yng Nghymru? (WAQ37463)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Mae'r Prif Weinidog a minnau wedi cael cyflwyniad ar gynnig y Sefydliad Cenedlaethol Er Ymchwilio i Gynefinoedd Dyfrol, a byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach iddo pan fydd cynllun busnes y prosiect ar gael.

## Croesfan Rheilffordd Beryglus yn Nhalwrn Bach

**Lisa Francis:** Pa gynlluniau sydd gan Network Rail i newid y groesfan rheilffordd beryglus yn Nhalwrn Bach ger Llanbedr, Gwynedd, lle cafwyd nifer o ddamweiniau, a pha gynlluniau sydd gan Lywodraeth y Cynulliad i sicrhau bod y gwaith hwn yn cael ei wneud? (WAQ37466)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Mater i Network Rail yw hwn. Mae'n archwilio pob croesfan wastad gyhoeddus yn fisol a rhoddir gwybod am unrhyw ddiffygion croesi ac maent yn cael eu hatgyweirio gan y tîm cynnal a chadw. Ar hyn o bryd, mae Network Rail wrthi'n gosod cyfarpar arolygu ar groesfannau agored awtomatig sy'n cael eu monitro'n lleol ac mae Talwrn Bach ar y rhestr ar gyfer y flwyddyn ariannol hon.

Fodd bynnag, yn unol ag asesiad Network Rail o lefel isel y risg ar y groesfan hon, nid oes cynlluniau i osod rhwystrau arni.

## System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewrop

**Lisa Francis:** Sut y bydd Mesur Trafnidiaeth drafft Cymru gyfan yn effeithio ar system rheoli traffig rheilffyrdd Ewrop? (WAQ37469)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Mae'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol wedi cadarnhau y bydd cam cyntaf y treialon ar System Rheoli Traffig Rheilffyrdd Ewrop yn cael ei gynnal ar arfordir y Cambrian rhwng 2005 a 2008. Ni fydd Mesur Trafnidiaeth drafft Cymru gyfan yn effeithio o gwbl ar y treialon hyn.

## Nifer y Bobl sy'n Derbyn Tocynnau Bws Am Ddim

**Jenny Randerson:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i gynyddu nifer y bobl sy'n derbyn tocynnau bws am ddim ymhlith y rhai sydd dros 60 oed? (WAQ37476)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Ym mis Ebrill 2002, cafwyd ymgyrch gyhoeddusrwydd gan gynnwys hysbyseb deledu, posteri a thaflenni. Cynhaliwyd ymgyrch gyffelyb ym mis Ebrill 2003 i ddynodi bod y cynllun wedi cael ei ehangu i gynnwys dynion rhwng 60 a 64 oed. Cynhaliwyd cyfres o lansiadau rhanbarthol ar y naill achlysur a’r llall. Cyn bo hir bydd Dr Brian Gibbons yn cymryd rhan mewn digwyddiadau lleol i dynnu sylw at lwyddiant y cynllun.

## Cyrff Trafnidiaeth Gymunedol

**Jenny Randerson:** Sawl corff trafnidiaeth gymunedol sydd wedi mynegi diddordeb mewn cymryd rhan mewn cynlluniau i ddarparu tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed o ganlyniad i ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad yn ddiweddar? (WAQ37477)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 10 Medi 2004.***

**Andrew Davies:** Yr oedd Rheoliadau Grant Gweithredwyr Gwasanaethau Bysiau (Diwygio) (Cymru) 2003, a ddaeth i rym ar 31 Gorffennaf, yn darparu gogyfer â thalu’r grant i weithredwyr sy’n cynnig gwasanaethau bysiau hyblyg, gan eu galluogi i hawlio ad-daliad ar dreth tanwydd, ac nid oes a wnelont o gwbl â darparu tocynnau bws am ddim i bobl dros 60 oed.

## Cabanau Ffôn BT

**Lisa Francis:** Faint o gabanau ffôn newydd BT yng Nghymru sydd â pheiriannau arian a ffonau talu ynddynt? (WAQ37495)

**Andrew Davies:** Mae pob caban ffôn BT yng Nghymru â ffonau talu, ond nid oes peiriannau arian wedi’u gosod yn unrhyw un ohonynt.

## Cabanau Ffôn Amlgyfrwng Band Eang

**Lisa Francis:** Faint o awdurdodau lleol yng Nghymru sydd wedi ariannu’r gwaith o uwchraddio i gabanau ffôn amlgyfrwng band eang? (WAQ37496)

**Andrew Davies:** Nid oes unrhyw awdurdodau unedol yng Nghymru wedi cyfrannu’n ariannol er mwyn gosod band eang mewn cabanau ffôn yng Nghymru. Penderfyniad masnachol i BT ei hun fyddai unrhyw benderfyniad i uwchraddio cabanau ffôn BT i fand eang, nid ffrwyth unrhyw ymyrraeth o du’r sector cyhoeddus.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cymwysterau Galwedigaethol

**Carl Sargeant:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi'u cymryd i godi proffil cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru? (WAQ37493)

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr ystadegau mwyaf diweddar a gyhoeddwyd gan y Gyfarwyddiaeth Ystadegau ar gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2002-03? (WAQ37494)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Dyfarnwyd oddeutu 81,350 o gymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yn 2002-03. Oherwydd gwelliannau yn y ffordd y caiff data ei brosesu gan yr Adran Addysg a Sgiliau, nid oes modd cymharu data 2002-03 yn uniongyrchol â'r blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, mae tystiolaeth i awgrymu bod y data a gyhoeddwyd yn ddiweddar, sydd hefyd yn dangos 30,320 o ddyfarniadau NVQ yng Nghymru, yn cynrychioli cynnydd o'i gymharu â 2001-02, yn enwedig mewn sefydliadau addysg bellach. Yr ydym yn parhau i gymryd amryw o gamau i godi proffil cymwysterau galwedigaethol ymhellach. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn rhaglen waith i'r DU gyfan sy'n edrych ar ffyrdd o wella'r dull o'u datblygu, eu cyflwyno a'u cyllido, gan dywys yr agenda 14 i 19 yn ei blaen, datblygu fframwaith credydau a chymwysterau Cymru, cynorthwyo cronfa ddysgu undebau Cymru a chynorthwyo ELWa â'i adolygiad o ddysgu seiliedig ar waith. Nodir y cyd-destun cyffredinol yn ein dogfen ymgynghori ar gynllun gweithredu sgiliau a chyflogaeth 2004, a gyhoeddwyd ym mis Mai eleni.

### Ceisiadau am Iawndal yn erbyn Ysgolion mewn Perthynas â Gweithgareddau Awyr Agored y Tu Allan i'r Ysgol

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch ceisiadau am iawndal yn erbyn ysgolion mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored y tu allan i'r ysgol? (WAQ37504)

**Nick Bourne:** Faint o iawndal sydd wedi'i dalu gan ysgolion mewn perthynas â gweithgareddau awyr agored y tu allan i'r ysgol ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf? (WAQ37505)

**Jane Davidson:** Mater i ysgolion yw bodloni eu hunain fod ganddynt warchodaeth yswiriant ddigonol wrth gynllunio gweithgareddau awyr agored. Ni chesglir gwybodaeth am iawndal yn ganolog.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Cwmni Cig Arfon (Cymorth Grant)

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar faint o gymorth grant a ddyfarnwyd gan

Lywodraeth Cynulliad Cymru i Gwmni Cig Arfon? (WAQ37488)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r Cynulliad wedi rhoi grant prosesu a marchnata i Gwmni Cig Arfon i ddatblygu cyfleuster prosesu cig â gwerth ychwanegol. Yr oedd buddsoddiad o £1,032,600 yn y prosiect a chafodd gymorth grant o £413,040. Mae'r cwmni hefyd wedi cael grantiau cynllun datblygu marchnata gwerth rhyw £167,500 i'w helpu i ddatblygu strwythur marchnata effeithlon ac i ganfod marchnadoedd newydd ar gyfer cynnyrch sydd â gwerth ychwanegol. Mae'r prosiectau hyn oll wedi cael eu cwblhau.

## Y Cynllun Premiwm Buchod Sugno

**Glyn Davies:** Sawl cais am y cynllun premiwm buchod sugno yr effeithiwyd arno gan y rheol ynghylch hysbysu Llywodraeth y Cynulliad am rif adnabod anifail cyfnewid pan fydd heffer wedi bwrw llo yn y cyfnod cadw? (WAQ37490)

**Carwyn Jones:** Mae'n ymddangos bod y rheol am heffrod yn effeithio ar oddeutu 5 y cant (320 o geisiadau) o'r ymgeiswyr o dan gynllun premiwm buchod sugno 2003.

## Peidio â Rhoi Gwybod am Rif Adnabod Anifail Cyfnewid

**Glyn Davies:** Faint o arian sydd wedi'i gadw rhag ei dalu i ffermwyr da byw yng Nghymru am iddynt beidio â rhoi gwybod rhif adnabod anifail cyfnewid pan fydd heffer wedi bwrw llo o dan y cynllun premiwm buchod sugno? (WAQ37491)

**Carwyn Jones:** Nid oes modd canfod yn hawdd, o'r adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd, faint o arian a gollwyd i'r diwydiant ffermio yng Nghymru o ganlyniad i reol heffrod 2003. Mae'r cyfrifiad yn gymhleth a byddai'n golygu amcangyfrif, fesul achos, yr arian a allai fod wedi'i golli am fod anifeiliaid a oedd gynt yn gymwys wedi cael eu tynnu allan a'r angen i ystyried y cosbau traws fuchol.

## Trosglwyddo Swyddi WEFO o Fachynlleth

**Glyn Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog neu ei swyddogion wedi bod yn rhan ohonynt a allai arwain at drosglwyddo swyddi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o Fachynlleth i unrhyw leoliad arall yng Nghymru? (WAQ37492) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog Cyllid.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid oes trafodaethau wedi cael eu cynnal am drosglwyddo swyddi Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru o Fachynlleth. Mae gwaith ar y gweill o dan y strategaeth leoli i nodi swyddogaethau addas i'w symud i swyddfeydd newydd y Gogledd a'r Canolbarth a gwneir cyhoeddiad pellach pan fydd penderfyniadau wedi cael eu gwneud.

## Meirionnydd (Categori Ardaloedd Llai Ffafriol)

**Lisa Francis:** Pa gamau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw Meirionnydd yn y categori ardaloedd llai ffafriol? (WAQ37497)

**Carwyn Jones:** Mae mwyafrif helaeth Meirionnydd yn perthyn i ardaloedd llai ffafriol Cymru. Os ydych yn ymwybodol o unrhyw resymau pam na ddylai'r ardal hon mwyach gael ei dynodi'n ardal lai ffafriol, byddai gennyf ddiddordeb i'w clywed.

## Cael Gwared ar Gabanau Ffôn

**Lisa Francis:** A oes gan Lywodraeth Cynulliad Cymru unrhyw fewnbwn i'r canllawiau ar y prosesau ymgynghori sy'n cael eu llunio gan Ofcom mewn perthynas â'r bwriad i gael gwared ar gabanau ffôn o Gymru? (WAQ37498) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Nid yw rheoleiddio yn y maes hwn yn fater sydd wedi'i ddatganoli. Fodd bynnag, yr wyf yn cyflwyno sylwadau i Ofcom i bwysleisio pwysigrwydd cynnal darpariaeth gynhwysfawr o gabanau ffôn yn ardaloedd gwledig Cymru.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

## Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad (Aelodau o'r Blaid Lafur)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru holl aelodau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd hefyd yn digwydd bod yn aelodau o'r Blaid Lafur? (WAQ37428)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 14 Medi 2004.***

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei chadw. Yn unol â gofynion Swyddfa'r Comisiynydd dros Benodiadau Cyhoeddus, gofynnir i'r rhai sy'n ymgeisio am benodiadau ddatgan gwybodaeth am weithgarwch gwleidyddol. Nid yw hyn yn cynnwys gwybodaeth bersonol na phreifat megis aelodaeth o bleidiau gwleidyddol.

## Saith Elfen y Gronfa Droseddu

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion gwariant Llywodraeth Cynulliad Cymru ar bob un o'r saith elfen o'i chronfa droseddu—WAQ36919—ar gyfer y flwyddyn ariannol 2003-04? (WAQ37499)

**Sue Essex:** Ar gyfer blwyddyn ariannol 2003-04, cyfrannodd y dyraniadau canlynol at y gronfa ymladd troseddu:

| | £ |
|---|---|
| Y gronfa cymunedau diogelwch | 3,393,592 |
| Y grant dadrithiad | 500,000 |
| Mentrau cyffuriau ac alcohol | 7,074,974 |
| Trais yn y cartref | 1,428,539 |
| Tai i gyn-droseddwyr ac ati | 354,000 |
| Cyfanswm | 12,751,105 |

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Cyllid Ychwanegol ar gyfer Therapi Galwedigaethol

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer therapi galwedigaethol er mwyn cyllido'r gwasanaethau dehongli? (WAQ37427)

***Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 25 Awst 2004.***

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Cyfrifoldeb y byrddau iechyd lleol yw darparu pob gwasanaeth iechyd, gan gynnwys gwasanaethau therapi galwedigaethol. Rhaid iddynt asesu anghenion yr ardal leol a, chan weithio gydag ymddiriedolaethau'r GIG, y sector gwirfoddol ac eraill, gynllunio a blaenoriaethu eu gwasanaethau iechyd i ddiwallu'r anghenion hynny o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw faterion neilltuol yn ymwneud â chyllido gwasanaethau dehongli o fewn therapi galwedigaethol. Os gallwch roi manylion imi am y materion penodol y cyfeiriwch atynt, rhowch wybod imi.

### Claf yn Aros ar Droli yn Ysbyty Athrofaol Cymru

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr amser y bu'n rhaid i Morag Redman aros ar droli yn Ysbyty Athrofaol Cymru yng Nghaerdydd? (WAQ37454)

**Jane Hutt:** Yr oeddwn yn bryderus iawn o glywed am yr achos hwn.

Mae llawer iawn o waith yn cael ei wneud ar draws Cymru i leihau’r pwysau ar staff, i’w cynorthwyo ac i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn gyflym. Mae staff adrannau damweiniau ac achosion brys ar y rheng flaen ym maes gofal iechyd ac yn gweithio dan bwysau aruthrol. Yr ydym yn gweithio gyda nhw i greu gwell ffyrdd o weithio. Er enghraifft, lansiodd Arloesi mewn Gofal rhaglen gydweithredu ar gyrchu at ofal brys ym mis Mehefin 2004. Mae’r rhaglen 18 mis hon yn canolbwyntio ar ofal sylfaenol, damweiniau ac achosion brys ac asesiadau aciwt ac mae’n golygu bod y cyrff perthnasol i gyd yn gweithio gyda’i gilydd i fabwysiadu dulliau i wella mynediad cleifion at wasanaethau gofal brys. Bydd hyn yn sicrhau eu bod yn cael y gofal priodol mewn modd amserol yn y lleoliad mwyaf priodol.

Deallaf fod Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a’r Fro yn ymdrin â’r mater penodol hwn drwy drefn gwyno’r GIG. Fel y byddwch yn gwerthfawrogi, byddai’n amhriodol imi gynnig sylwadau pellach ar hyn o bryd.

## Capasiti Practisiau Deintyddol Presennol y GIG

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar unrhyw gynlluniau i gynyddu’r nifer sy’n cael eu trin ym mhractisiau deintyddol presennol y GIG? (WAQ37478)

**Jane Hutt:** Mater yn llwyr i’r deintydd dan sylw yw penderfynu cynyddu’r nifer sy’n cael eu trin mewn practis deintyddol sy’n rhan o’r GIG. Mae deintyddion cyffredinol yn ymarferwyr hunangyflogedig annibynnol sy’n rhydd i ddewis pa un i neilltuo cyfran o’u hamser gwaith o dan gontract i ddarparu triniaeth GIG ar ran y byrddau iechyd lleol ai peidio. Maent hefyd yn rhydd i benderfynu faint o gleifion a pha gleifion y maent yn dymuno eu cael ar eu rhestr GIG.

Gall y Cynulliad Cenedlaethol gynnig cymorth ariannol i ddeintyddion sy’n barod i wneud ymrwymiad dros gyfnod i’r GIG ac sy’n barod i sefydlu practisiau newydd, neu i ehangu practisiau sy’n bodoli’n barod mewn ardaloedd dynodedig, drwy fenter ddeintyddiaeth Cymru.

## Gorfod Cynnal Archwiliadau Deintyddol ar Gleifion bob Chwe Mis

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr angen i ailystyried y drefn o orfod cynnal archwiliadau deintyddol ar gleifion bob chwe mis? (WAQ37479)

**Jane Hutt:** Disgwylir i ddeintyddion ddilyn cyngor y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol o ran pa mor aml y dylid galwcleifion yn ôl. Mae canllawiau ffurfiol ar y mater hwn i fod i gael eu cyhoeddi ar gyfer y GIG yng Nghymru a Lloegr yn ddiweddarach eleni. Rhagwelir y bydd y canllawiau yn dilyn yr egwyddorion a argymhellir mewn addysgu modern, sef ymyrryd cyn lleied â phosibl, a gallai hynny olygu bod cleifion â risg isel o glefyd yn cael eu gweld yn llai aml nag ar hyn o bryd.

## Nifer y Bobl sy’n Aros i Gofrestru gyda Deintydd GIG

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy’n aros i gofrestru gyda deintydd GIG yng Nghymru? (WAQ37480)

**Jane Hutt:** Nid oes data yn dangos nifer y bobl sy’n aros i gofrestru gyda deintydd GIG yn cael ei gadw’n ganolog. Fodd bynnag, ar 30 Mehefin 2004, nid oedd 49.2 y cant o boblogaeth Cymru wedi’u cofrestru am driniaeth gyda deintydd GIG. Bu’r ffigur hwn ar lefel gyson ers rhai blynyddoedd. Mae’n bwysig nodi bod hyn yn cynnwys nifer fawr o bobl sy’n dewis peidio â chofrestru.

### Grantiau Cymorth ar gyfer Tai Fforddiadwy

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i gyflwyno grantiau cymorth, a gaiff eu darparu ar gyfer gweithwyr allweddol fel staff y GIG, i’w helpu i fforddio i gael gafael ar dai? (WAQ37481) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.***

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ37434.

### Cysylltiadau Gwleidyddol Aelodau Byrddau Iechyd Lleol

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba wybodaeth sydd ganddynt ar gysylltiadau gwleidyddol aelodau byrddau iechyd lleol? (WAQ37482)

**Jane Hutt:** Fe’ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ37465 a roddwyd ar 1 Medi.

### Mynd i’r Afael â Nifer y Bobl sy’n Cael Strôc

**Sandy Mewies:** Faint o arian mae Cynulliad Cymru wedi’i ddyrannu i fynd i’r afael â nifer y bobl sy’n cael strôc yng Nghymru? (WAQ37484)

**Jane Hutt:** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei chadw’n ganolog. Mae arian i fynd i’r afael â nifer y bobl sy’n cael strôc yn rhan o’r setliad ariannol cyffredinol y cytunir arno gyda’r byrddau iechyd lleol.

### Darpariaeth Unedau Strôc yn Ysbytai Cymru

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ddarpariaeth o unedau strôc yn ysbytai Cymru? (WAQ37485)

**Jane Hutt:** Rhoddodd archwiliad goruchwylio Coleg Brenhinol y Meddygon o’r gwasanaethau strôc ddarlun o’r ddarpariaeth gwasanaeth iechyd ar gyfer cleifion strôc yng Nghymru. Canfu fod darpariaeth gennym i drin cleifion yn effeithiol ac mae’n awgrymu bod angen unedau strôc ar rai ysbytai.

Bydd canlyniadau'r archwiliad goruchwylio yn dylanwadu ar y gwaith o ddatblygu'r safon strôc—rhan o'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn yng Nghymru—i helpu i wneud gwasanaethau strôc yn fwy effeithlon a chyson ar draws Cymru.

## Cynorthwyo Cleifion Strôc yn y Gogledd

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gwaith sy'n cael ei wneud i gynorthwyo cleifion strôc yn y Gogledd? (WAQ37486)

**Jane Hutt:** Mae gwaith ar y gweill i sicrhau bod gwasanaethau strôc effeithiol yn cael eu datblygu yn y Gogledd, fel y mae yng ngweddill Cymru. Yr ydym wrthi ar hyn o bryd yn datblygu fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn, a fydd yn cynnwys safon ar strôc.

Mae'r byrddau iechyd lleol yn datblygu llwybrau gofal integredig i helpu i sicrhau bod y driniaeth a'r gofal ar gyfer cleifion strôc yn effeithiol ac amserol. Yn ogystal, mae byrddau iechyd lleol y Gogledd, yn gweithio gydag ymddiriedolaethau GIG ac asiantaethau eraill, wedi sefydlu grwpiau partneriaeth, fel rhan o'r fframwaith gwasanaeth ac ariannol ar gyfer 2004-05, i ymgymryd ag adolygiad o'r gwasanaethau strôc sy'n cael eu darparu ar hyn o bryd.

Yr wyf wedi annog pob bwrdd iechyd lleol i gefnogi gwaith archwiliad goruchwylio cenedlaethol Coleg Brenhinol y Meddygon ar strôc yng Nghymru, a fydd yn rhoi gwybodaeth i glinigwyr a'r rhai sy'n ymwneud â threfnu gwasanaethau strôc am sut y maent yn perfformio yn erbyn safonau rhagosodedig. Yr wyf yn falch o adrodd fod grwpiau partneriaeth y Gogledd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried eu cyfranogiad yn y gwaith hwn. Bydd canlyniadau'r archwiliad hwn hefyd yn dylanwadu ar y safon strôc yn y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ar gyfer pobl hyn yng Nghymru. Bydd hyn yn rhoi cyfeiriad ac yn adeiladu ar y gwasanaethau strôc arbenigol sydd eisoes yn bodoli ac yn cael eu datblygu yn y Gogledd.

## Adolygiad y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnes o'r Ffordd Ymlaen (BILl Powys)

**Laura Anne Jones:** A yw'r Gweinidog wedi trafod â Bwrdd Iechyd Lleol Powys gynigion o adolygiad y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnes o'r ffordd ymlaen nad ydynt yn ymarferol i lawer o weithwyr y ganolfan ac a allai arwain at golli staff o fewn y GIG? (WAQ37487)

**Jane Hutt:** Nid wyf wedi cael trafodaethau gyda Bwrdd Iechyd Lleol Powys ar y mater hwn. Yr wyf yn ymwybodol fod rhai aelodau staff wedi mynegi eu pryderon am faterion megis trefniadau cludiant pe bai rhai o swyddfeydd y Ganolfan Gwasanaethau i Fusnes yn cael eu cyfuno ac mae'r holl bwyntiau hyn yn cael eu hystyried yn y broses ymgynghori. Cynghorwyd y staff hefyd i drafod eu hamgylchiadau personol, yn gyfrinachol, gyda'u rheolwyr adnoddau dynol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Prosiect Teen Challenge yn y De

**Brynle Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y bwriad i dynnu'n ôl arian a roddwyd gan Lywodraeth y Cynulliad i brosiect Teen Challenge UK yn y De, a'r rhesymau y tu ôl i'r penderfyniad hwn? (WAQ37489)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae Teen Challenge UK wedi cyflwyno apêl yn erbyn y penderfyniad hwn, a hyd nes y bydd wedi cael ei hystyried yn llawn byddai'n amhriodol gwneud sylwadau pellach.

### Cyllid ar gyfer Cyfiawnder Ieuenctid

**Peter Black:** Faint sydd wedi'i gyllidebu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer darparu cyfiawnder ieuenctid ymhob un o'r pedair blwyddyn ariannol rhwng 2003 a 2007 ac o ba bennawd cyllideb? (WAQ37500)

**Edwina Hart:** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud darpariaeth benodol yn y gyllideb ar gyfer cyfiawnder ieuenctid, mater nad yw wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad. Mae gan y Cynulliad y grym i roi grantiau at ddibenion atal troseddu gan bobl ifanc a darparwyd rhai adnoddau o dan y grant gwasanaethau trais yn y cartref a'r gronfa cymunedau diogelwch i'r diben hwn. Fe'ch cyfeiriaf at fy ateb i WAQ37501.

### Grant Gwasanaethau Trais yn y Cartref

**Peter Black:** Faint o'r grant gwasanaethau trais yn y cartref ar gyfer pob un o'r pedair blwyddyn ariannol rhwng 2003 a 2007 sydd wedi'i ddyrannu ar gyfer darparu cyfiawnder ieuenctid? (WAQ37501)

**Edwina Hart:** Y symiau ar gyfer cyfiawnder ieuenctid a gynhwyswyd yn y grant gwasanaethau trais yn y cartref oedd £133,000 yn 2003-04 a £138,000 yn 2004-05. Nid yw'n bosibl gwneud sylwadau am y blynyddoedd i ddod gan fod cylch cynllunio'r gyllideb yn dal i fynd rhagddo.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Ty

### Cynlluniau ar gyfer System Awyru Newydd yn Adeilad Presennol y Cynulliad

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd i gyflwyno system awyru newydd yn adeilad presennol y Cynulliad a beth fydd y gost? (WAQ37502)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Gosodwyd unedau i oeri'r aer yn y Neuadd a'r dderbynfa yn ystod mis Awst i oeri'r ardaloedd hyn ar gost o £15,867 ynghyd â TAW.

## Camerâu Diogelwch Newydd yn Adeilad Presennol y Cynulliad

**Glyn Davies:** Pa gynlluniau sydd i gyflwyno camerâu diogelwch newydd yn adeilad presennol y Cynulliad a beth fydd y gost? (WAQ37503)

**John Marek:** Mewn ymateb i gyngor ynglyn â diogelwch, yn ystod yr haf uwchraddiwyd system teledu cylch cyfyng adeilad y Cynulliad i ddarparu cyfleusterau recordio digidol am gost o £284,943 ynghyd â TAW.